| Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | HSS(2)-01-04(p.2) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 14 Ionawr 2004** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2002/2003**<br>**Adroddiad Y Prif Arolygydd: Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** |

**Diben**

1. Cyflwyno Adroddiad y Prif Arolygydd ar gyfer 2002/03 i'r Pwyllgor ynghylch perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

2. Rhoi cyfle i drafod y prif themâu sy'n codi ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

**Crynodeb ac Argymhellion**

3. Nodi a chyflwyno sylwadau ar adroddiad Prif Arolygydd AGCC, "Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2002-2003".

**Cefndir**

**ADRODDIAD Y PRIF AROLYGYDD: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU 2002/2003**

**Yr Adroddiad**

4. Mae Adroddiad y Prif Arolygydd i Gymru ar gyfer 2002/03 ar gael i'r Pwyllgor ac amgaeir copi yn Nogfen 1. Cyhoeddwyd yr adroddiad dwyieithog ym mis Rhagfyr ac mae wedi'i ddosbarthu'n eang.

5. Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau rhaglen newydd AGCC o werthuso. Mae hyn yn cynnwys agweddau allweddol ar berfformiad awdurdodau Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru. Er bod y mesurau perfformiad yn dangos gwelliant cyffredinol erys amrywiaeth sylweddol o ran sut y mae awdurdodau'n ymateb i anghenion plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

6. Amlinella'r adroddiad yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i wella gwasanaethau:

- Rhaid rhoi rhagor o bwyslais ar asesu a rheoli gofal er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt pan y mae eu hangen arnynt.
- Rhaid rhoi mwy o rym i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Rhaid i wasanaethau geisio cynyddu annibyniaeth pobl, yn hytrach na'u dibyniaeth.
- Rhaid i'r gweithlu chwarae rhan flaenllaw drwy gyfrannu o'u profiad at benderfyniadau ynghylch y ffordd orau i awdurdod gyflawni ei gyfrifoldebau.
- Rhaid rhoi rhagor o sylw i'r ffordd y mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yn comisiynu gwasanaethau o'r radd flaenaf a sicrhau y darperir y rhain dros amser.
- Rhaid i awdurdodau roi sylw i wella trefniadau ar gyfer cydweithio o fewn yr awdurdod, â phartneriaid statudol eraill ac â phartneriaid yn y sectorau preifat a gwirfoddol.

7. Trosolwg y Prif Arolygydd yw’r bennod gyntaf. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am welliannau drwy roi arweiniad clir i wasanaethau cymdeithasol ar lefel wleidyddol a phroffesiynol. Mae angen hefyd datblygu gwell dulliau o rannu ag eraill a dysgu ohonynt, o fewn a rhwng awdurdodau yng Nghymru fel bod gwasanaethau'n gryfach ac yn fwy addas i fodloni anghenion pobl.

8. Mae'r penodau dilynol yn ymdrin â chanlyniadau gwerthusiad perfformiad, arolygiad a gwaith gwella a datblygu AGCC er mwyn hyrwyddo arferion da mewn perthynas ag oedolion a phlant. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r tueddiadau allweddol mewn gwasanaethau cymdeithasol ac amrywiadau mewn perfformiad rhwng awdurdodau fel a ganlyn:

- lefelau cymhwyster gwell o fewn y gweithlu i'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdodau lleol. Ymhlith holl staff y gwasanaethau cymdeithasol fe gododd y ganran sydd â chymwysterau o 19% i 29% rhwng 1999 a 2002. Mae'r gwelliant yn arbennig o amlwg mewn meysydd oedd yn draddodiadol heb lawer o staff cymwysedig megis gofal preswyl, gofal dydd a gofal yn y cartref.
- amrywiad yn ansawdd y gwasanaethau ledled Cymru fel y'i hamlygir trwy arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd: adlewyrchai arolygiadau a dangosyddion perfformiad mewn perthynas â gwasanaethau plant broblemau parhaus o fewn rhai awdurdodau o ran cynnal perfformiad.
- amrywiad mewn perfformiad o ran sicrhau cydbwysedd effeithiol o ofal mewn gwasanaethau ar gyfer oedolion ac yn enwedig pobl hyn: roedd yn ymddangos bod rhai awdurdodau yn cydbwyso perfformiad yn well nag eraill: roedd angen newid diwylliannol o fewn rhai awdurdodau er mwyn hybu annibyniaeth.

- amrywiaeth sylweddol o ran perfformiad mewn nifer o wasanaethau plant gan gynnwys gwasanaethau lleoli teulu, mabwysiadu ac amddiffyn plant, gyda rhai awdurdodau wedi cwblhau eu holl adolygiadau mewn pryd ac eraill ond wedi cwblhau 25% o'u targed.

- erys amrywiaeth sylweddol o ran cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, gyda gwariant rhai awdurdodau dau draean yn uwch nag eraill. Mae'n amlwg bod yr amrywiad yn gysylltiedig, i ryw raddau, ag angen ond bydd AGCC yn edrych fwyfwy ar amrywiadau mewn gwariant a pherfformiad fel rhan o'i gwaith gwerthuso er mwyn gallu gwella a gwneud y mwyaf o fanteision buddsoddi mewn gwasanaethau (gweler pennod Cyd-destun yr adroddiad).

9. Mae data diweddar at ddiben cymharu wedi'i gasglu ynghyd er mwyn dangos rhai o'r tueddiadau hyn - nid oedd yr holl ddata ar gael adeg paratoi'r adroddiad hwn a bydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**Cydymffurfio**

10. Mae gwaith yr Arolygiaeth yn cael ei gynnal – ac mae adroddiad y Prif Arolygydd wedi’I gyhoeddi – o dan y pwerau yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae’r pwerau hyn wedi cael eu trosglwyddo I’r Cynulliad a’u dirprwyo I’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Casgliadau**

11. Gwahoddir y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno eu sylwadau ar yr adroddiad.

**Cysyllter â:** Graham Williams, y Prif Arolygydd, ffôn 029 2082 3196